# 12. Nadolig o Gylch y Byd

Cyflwyniad: Croeso i'r gwasanaeth Nadolig y bore 'ma. Bellach, mae'r amser prysur yn cyrraedd ei uchafbwynt: y cardiau wedi'u hysgrifennu, yr anrhegion wedi'u pacio, y goeden yn ei lle ac wedi'i haddurno, y bwyd a'r melysion yn barod. Ond, beth am yr addoliad, y carolau, y darlleniadau a'r neges bod Duw wedi dod i'n byd yn faban?

Mor fwyn ydyw'r wên ar wyneb ein Duw
Mae'n dalp o anwyldeb,
Yn gariad er nad oes neb
Yn brysio at ei breseb.

T. Arfon Williams, *Nadolig y Beirdd*.

Carol: 'Bethlehem (3)', *Clychau'r Nadolig*.

[*Y plant mewn gwisgoedd yn cynrychioli gwahanol wledydd, yn cerdded i mewn dan ganu'r gytgan*]

Gweddi: [*Unrhyw weddi bwrpasol efallai wedi ei pharatoi gan y plant, gan gofio'n arbennig am wledydd ble mae rhyfel, sôn am ryfel, newyn ac yn y blaen*]

Carol: 'Yn gynnar heddiw'r bore', *Clychau'r Nadolig*.

[*Gellir canu'r carolau gan unigolion, partïon neu'r gynulleidfa*]

Cyflwynydd: 'Nadolig yw', *Clychau'r Nadolig*.

Carol: 'Draw yn nhawelwch Bethlem dref', *Clychau'r Nadolig*.

Cyflwynydd: Roedd y geiriau Cymraeg yna wedi eu gosod i hen alaw Ffrengig. Yn Ffrainc, y preseb yw canolbwynt y Nadolig. Arferai Sant Ffransis o Assisi, yr Eidal, ddysgu stori'r Geni i'w blwyfolion, trwy ddefnyddio pobl ac anifeiliaid y dref o gwmpas y crud. Yno, byddai'n darllen hanes y bugeiliaid.

' ... aethant ymaith ar frys a chawsant hyd i Mair a Joseff, a gwelsant hefyd y baban yn gorwedd mewn preseb. Ac ar ôl gweld hyn, adrodd wrth bawb a welsant am yr hyn a ddywedwyd wrthynt am y baban hwn. Rhyfeddai pawb a'u clywodd, at y pethau a ddywedai'r bugeiliaid wrthynt; ond cadwodd Mair y cyfan yn ei chalon, gan feddwl yn ddwfn ac yn ddwys am y pethau hyn.'

Ai genedigaeth Crist yw canolbwynt ein Nadolig ni?

Carol: 'Tawel y Nos', *Clychau'r Nadolig*.

Cyflwynydd: Carol o Bafaria a ysgrifennwyd flynyddoedd maith yn ôl yw 'Tawel y Nos'. Mae'r goeden Nadolig yn symbol poblogaidd iawn yn yr ardal hon. Yn ôl traddodiad, Martin Luther a ddechreuodd yr arferiad o addurno coeden Nadolig. Tra oedd yn cerdded allan fin nos, sylwodd fod y sêr a'r lleuad yn

rhoi harddwch newydd i'r pinwydd. Brysiodd yn ôl at ei deulu i ddweud wrthyn nhw am brydferthwch y goleuni ar y pinwydd, ac er mwyn dangos iddyn nhw, torrodd binwydden a'i gosod yn y tŷ, a chlymodd ganhwyllau ar ei brigau a'u cynnau.

Carol: 'Dos dywed ar y mynydd', *Clychau'r Nadolig*.

Cyflwynydd: Neges fawr y Nadolig yn fyd eang yw bod Duw wedi mynd ymhellach na danfon neges atom; mynnodd ddod ei hunan.

Carol: 'O deuwch oll i Fethlehem', *Clychau'r Nadolig*.

Gweddi a'r Fendith

**DIWEDD**